Cofnodion Cyfarfod Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd am 7.00pm ar ddydd Mercher, 6 Ebrill 2005 yn Neuadd y Sir, Llandeilo

Yn Bresennol: Dirprwy Faer Colin Jenkins, Cyng Pamela Steane Price, Cyng Richard Wallace, Cyng Fran Murphy, June Stait, Clerc.

Ymddiheuriadau: Maer Cyng Ros Bellamy, Cyng David Jones, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Roy Davies

6444/Ebrill/05 Ceisiadau Cynllunio i'w hystyried
Cefnogwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:

E09571 Cais Cynllunio llawn am estyniad un llawr wrth gefn adeilad yn 19 Heol y Garreg Las

E09572 Cais adeilad rhestredig am arwydd siop ychwanegol wrth ddrws blaen London House, 60 Heol Rhosmaen

E09697 Tynnu simdde i lawr yn 5 George Hill a'i ail godi

6445/Ebrill/05 Ceisiadau Cynllunio a Gymeradwywyd
Nodwyd bod y ceisiadau canlynol wedi cael eu cymeradwyo:

E07526 Newid coetsiws cyfredol i fod yn bedair ystafell wely i ymwelwyr, cegin, ardal fwyta, cyntedd newydd a thŷ bach yn y Salutation Inn. Cais adeilad rhestredig.

E07525 Fel uchod, ond cais cynllunio arferol

E08788 Newid sgrîn ffenestr a drws, a newid y to sy'n arwain at 7 Heol y Brenin

E08791 Tynnu gwydr a ffenest a sgrîn pvc, a gosod ystafell wydr bren draddodiadol gyda tho plwm fflat yn eu lle, sydd yn fwy addas i'r adeilad cofrestredig yn 7 Heol y Brenin

EO9220 Troi fflat a dwy ystafell ar y llawr gwaelod i fod yn siop yn 9 Heol y Brenin

E09380 Tynnu hen garej i lawr ac adeiladu un newydd yn 55 Heol Rhosmaen

6446/Ebrill/05 Trafnidiaeth
Mae pobl ifanc yn creu stŵr gyda'u ceir yn yr iard ger y gampfa wrth Adeiladau'r Banc, ac mae'r heddlu wedi cael gwybod am hyn. Disgwylir llythyr wrth aelodau'r cyhoedd am y broblem. Bydd swyddog yr heddlu yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfod llawn nesaf y Cyngor er mwyn trafod y broblem.

6447/Ebrill/05 Dynesiad yr Orsaf
Fe dderbyniodd y Cynghorwyr wybodaeth bod Network Rail yn gefnogol i'r syniad o drosglwyddo'r gyfrifoldeb am Heol yr Orsaf i'r Cyngor Sir, ar yr amod bod rheolydd y cledrau yn gefnogol hefyd. Mae cefnogaeth yn cael ei gasglu wrth bob grŵp ymgynghorol sydd â diddordeb, a disgwylir am y canlyniad.

6448/Ebrill/05 Cyflwr Toliedau'r Dref
Derbyniwyd neges e-bost wrth aelod o'r cyhoedd yn tynnu sylw at ddiffyg glanweithdra'r toiledau cyhoeddus ger y prif faes parcio. Bydd yn cael ei anfon at y Cyngor Sir er mwyn derbyn eu hymateb.

6449/Ebrill/05 Ymddiswyddiad y Clerc
Derbyniwyd lythyr o ymddiswyddiad wrth y Clerc, a fydd yn cael ei basio ymlaen i gyfarfod llawn y Cyngor.